# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Asiantaeth Faethu Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Llawr Cyntaf**
**Tŷ Elwyn**
**Sgwâr Neuadd y Dref**
**Llanelli**
**SA15 3AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Asiantaeth Faethu Cyngor Sir Caerfyrddin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Maethu Awdurdod Lleol |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 1 Mawrth 2016 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae Maethu Cymru Sir Gâr yn cynnwys un tîm wedi'i rannu'n ddwy adran. Mae un yn gyfrifol am recriwtio ac asesu a hyfforddiant cyn cymeradwyo, a'r llall yn gyfrifol am roi cymorth i ofalwyr cymeradwy. Ceir rheolwr cofrestredig a gefnogir gan reolwr tîm cynorthwyol ar gyfer pob adran. Caiff gofalwyr maeth eu hasesu a'u cymeradwyo i ofalu am blant, gan ddarparu gofal mewn argyfwng, seibiant, byrdymor a hirdymor. Cynhelir asesiadau o ofalwyr cysylltiedig gan weithwyr cymdeithasol yn nhimau'r ardal a chaiff y rhain eu trosglwyddo i'r tîm maethu ar ôl eu cymeradwyo. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi nifer o drefniadau rhiant a phlentyn a threfniadau ‘Pan Fydda i'n Barod’ ôl-18.

Mae’r plant yn cael gofal gan ofalwyr maeth sy'n cael eu cefnogi gan ddarparwr gwasanaeth yr awdurdod lleol i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Caiff eu hanghenion addysg, corfforol ac emosiynol eu hyrwyddo, a chânt eu hannog i gael hwyl ac i fwynhau amrywiaeth o ddiddordebau a gweithgareddau.

Cyn yr arolygiad, roedd darparwr yr awdurdod lleol wedi nodi nifer o feysydd o'r gwasanaeth y mae angen eu datblygu ymhellach. Comisiynwyd ymgynghorydd allanol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth, ac roedd hwn bron â chael ei gwblhau. Mae'r arolygiad hwn wedi nodi'r angen am welliannau mewn perthynas â recriwtio a chadw niferoedd digonol o ofalwyr maeth, prosesau cymeradwyo a pharu, capasiti rheoli, gweithrediad y gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau a phrosesau sicrhau ansawdd.

## Llesiant

Gwrandewir ar y plant a gefnogir gan ofalwyr Maethu Cymru Sir Gâr a chânt gyfleoedd i fynegi eu barn. Ymgynghorir yn ffurfiol â nhw fel rhan o adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth ac mae'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn eu gweld bob tri mis o leiaf, yn ychwanegol at ymweliadau statudol gan eu gweithwyr cymdeithasol dynodedig. Mae swyddogion Adolygu Annibynnol yn siarad â'r plant cyn eu hadolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal, y cânt eu hannog i gymryd rhan ynddynt. Mae'r plant yn ymwybodol o wasanaethau eirioli ac yn gwybod sut i gael gafael arnynt. Er y bwriedir cynnal digwyddiad ymgynghori ar raddfa fawr yn y dyfodol agos, nid oes unrhyw fforymau na dulliau ar gyfer ymgynghori â phlant ar sail strwythuredig, rheolaidd na grŵp ar hyn o bryd er mwyn i'w hadborth lywio gwaith datblygu a gwella gwasanaethau.

Caiff y plant eu cefnogi i fod yn iach. Mae'r gofalwyr maeth yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac arferion strwythuredig er mwyn annog arferion hylendid personol da. Mae'r plant wedi'u cofrestru ag asiantaethau gofal iechyd sylfaenol. Maent yn mynd i apwyntiadau rheolaidd yn ôl yr angen, ac yn defnyddio gwasanaethau mwy arbenigol os oes angen. Mae darparwr yr Awdurdod Lleol wedi sefydlu Tîm Iechyd Emosiynol sy'n cynnwys tîm bach o staff addysg, seicolegwyr ac ymarferwyr therapiwtig sy'n darparu sesiynau cymorth, ymgynghori a hyfforddiant i ofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gweithwyr cymdeithasol plant. Mae'r gwasanaeth yn gaffaeliad gwirioneddol i'r adran ac mae'n cael effaith sylweddol a chadarnhaol o ran helpu gofalwyr maeth i wneud synnwyr o brofiadau bywyd plant a darparu cyngor, arweiniad a strategaethau i gefnogi cydberthnasau, sefydlogrwydd lleoliadau ac, yn y pen draw, gwella cyfleoedd bywyd plant.

Caiff y plant eu cefnogi i gael addysg ac i wireddu eu potensial. Mae eu gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi pwysigrwydd addysg, yn hyrwyddo presenoldeb ac yn eirioli ar eu rhan yn ystod cyfarfodydd addysg. Dywedodd y gofalwyr maeth a'r staff wrthym am blant nad ydynt yn cael darpariaethau addas neu sydd ar amserlenni cyfyngedig, sy'n effeithio ar ganlyniadau'r plant ac sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar gartrefi maeth. Yn aml, caiff cymorth ychwanegol ei ddarparu gan weithiwr cymorth o'r tîm maethu; a hynny weithiau yn yr ystafell ddosbarth, mewn ymgais i gynnal y ddarpariaeth. Gall gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gweithwyr cymdeithasol plant fod yn rhan o drefniadau i gludo plant i'r ysgol ac oddi yno er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth. Gwneir cryn ddefnydd o dacsis i ddarparu cludiant i'r ysgol ar gyfer plant sydd weithiau'n ifanc iawn. Mae hyn yn rhannol oherwydd diwylliant ond hefyd oherwydd prinder gofalwyr maeth, sy'n golygu nad yw cludiant i'r ysgol yn cael ei ystyried yn ffactor hanfodol wrth baru plant â gofalwyr maeth.

Mae'r plant yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn cael hwyl. Caiff cydberthnasau â'u teuluoedd eu hyrwyddo cyhyd â bod hynny'n gyson â'u llesiant a chaiff ymdrechion eu gwneud i gadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd ble bynnag y bo'n bosibl. Dangosodd y ffeiliau fod y plant yn cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau allgyrsiol fel gwersi

nofio, clybiau chwaraeon a dosbarthiadau dawnsio. Maent yn mwynhau tripiau i barciau a thraethau ac yn mynd ar wyliau gyda'u gofalwyr maeth. Caiff pob cartref maeth docynnau am ddim i safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw. Mae'r gwasanaeth maethu hefyd wedi trefnu gweithgareddau i blant a gofalwyr sy'n cyd-fynd â gwyliau'r ysgol. Roedd y digwyddiad gwobrwyo blynyddol wedi bod yn boblogaidd gyda nifer o blant gael eu cydnabod am y cynnydd y maent wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, ac roedd amrywiaeth o weithgareddau wedi cael eu trefnu fel bod rhywbeth at ddant pawb.

## Gofal a Chymorth

Mae'r paneli llety amlddisgyblaethol yn ystyried plant y bwriedir eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Swyddogion lleoliadau, mewn ymgynghoriad â gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol, sy'n gyfrifol am baru anghenion gofal a chymorth plant â gofalwyr maeth. Mae nifer y lleoliadau sydd ar gael yn gyfyngedig ac mae eithriadau i leoli plant gyda gofalwyr maeth y tu hwnt i'w telerau cymeradwyo yn gyffredin. Nid oes proses na strwythur clir ar waith i gymeradwyo ac adolygu'r trefniadau hyn. Er bod gofalwyr maeth wedi dweud nad oes pwysau arnynt i ofalu am blant o dan yr amgylchiadau hyn ar y cyfan, mae eu parodrwydd i wneud hynny yn golygu bod plant yn symud i leoliadau maeth nad ydynt yn addas i ddiwallu eu hanghenion. Nid oes tystiolaeth o asesiadau cydnawsedd, ac mae hyn yn golygu bod pwysau cynyddol ar ofalwyr maeth i ddiwallu anghenion cymhleth y plant a leolir gyda nhw. Unwaith y bydd plant yn byw yn y cartrefi maeth hyn, gallant barhau i fyw yno am fisoedd, sy'n golygu bod y lleoliad yn fwy tebygol o fod yn destun tarfu, ac yn yr achos mwyaf difrifol a welsom, nid oedd cynllun gofal gan y llys yn cael ei ddilyn.

Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer symud plant rhwng gofalwyr maeth yn anghyson. Cymysg oedd adborth y gofalwyr maeth ar gyfathrebu cyn symud, gyda rhai yn dweud nad oes gwybodaeth allweddol fel manylion y meddyg teulu ar gael bob amser, yn enwedig pan ddaw plant i fyw gyda nhw mewn argyfwng. Weithiau, gall plant gael gofal seibiant gan eu gofalwyr maeth newydd ymlaen llaw. Mae'r gofalwyr yn darparu llyfryn ‘croeso i'r teulu’ (ond nid yw'r rhain yn gyfredol bob amser) a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y plant yn cael eu croesawu ac yn teimlo'n rhan o'r teulu. Cynhelir cyfarfodydd cefnogi lleoliad, sy'n ddefnyddiol iawn pan ymddengys fod lleoliad yn dechrau ansefydlogi; gellir cynnal y rhain mor aml â phob wythnos os oes angen. Gwnaethom nodi ei bod yn arferol i blant gael gofal seibiant gan ofalwyr eraill o fewn y gwasanaeth. Nid yw'r trefniadau hyn yn addas bob amser, a dylid ystyried faint o ofal seibiant y mae plant yn ei gael fel rhan o ddata sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r gofalwyr maeth yn uchel eu cymhelliant, yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i sicrhau bod plant yn cyflawni canlyniadau da ac yn ffynnu yn eu gofal. Mae cyfleoedd hyfforddiant ar gael iddynt drwy sesiynau dysgu wyneb yn wyneb neu ar-lein ond gan nad oes polisi hyfforddi/datblygu ar waith, nid oes disgwyliadau penodol o ran faint o hyfforddiant a ystyrir yn addas bob blwyddyn a beth sy'n orfodol. Dywedodd y gofalwyr maeth wrthym eu bod yn fodlon ar nifer y cyfleoedd hyfforddi a'u natur, ond roedd y cofnodion yn dangos cryn amrywiaeth o ran faint o hyfforddiant yr oedd y gofalwyr maeth wedi'i gwblhau, gyda rhai wedi cwblhau fawr ddim ers nifer o flynyddoedd yn ôl pob golwg. Mae angen cryfhau'r system ar gyfer cofnodi anghenion dysgu a datblygu'r gofalwyr maeth er mwyn cynnwys pob math o ddysgu y cred darparwr y gwasanaeth ei fod yn dystiolaeth dderbyniol o ddatblygiad parhaus y gofalwyr maeth.

Roedd y gofalwyr maeth yn llawn canmoliaeth i'r cymorth a ddarperir gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a'r tîm iechyd emosiynol. Ymwelir â nhw'n fisol fel arfer i'w goruchwylio ac i drafod cynnydd y plant. Maent o'r farn bod y system dyletswyddau y tu allan i oriau yn effeithiol. Mae'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r gofalwyr maeth, a nodwyd nifer o enghreifftiau o gymorth wedi'i werthfawrogi'n fawr pan fo angen yn sgil amgylchiadau personol y gofalwyr yn ogystal â phan fo lleoliad plentyn yn wynebu risg o darfu. Mae gan y gofalwyr maeth fentoriaid gofalwyr maeth, sef gofalwyr maeth profiadol sy'n cynnig cymorth anffurfiol drwy gysylltu â'u mentoreion yn rheolaidd ac yn trefnu grwpiau cymorth.

Caiff y plant eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae ganddynt gynlluniau gofal diogelach unigol a chynlluniau diogelwch ar gyfer materion penodol a all beri risgiau penodol. Caiff camau priodol eu cymryd mewn ymateb i faterion diogelu gwirioneddol neu botensial a materion a atgyfeiriwyd at weithwyr cymdeithasol ac asiantaethau diogelu fel y bo'n ofynnol. Mae'n anodd cadarnhau pa hyfforddiant diogelu y mae'r gofalwyr maeth a'r staff wedi'i gwblhau a pha mor aml y dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddiweddaru gan nad oes polisi na chanllawiau ar waith, ac efallai nad yw'r cofnodion hyfforddiant yn gywir. Gwnaethom nodi bod hyfforddiant diogelu ar amserlen hyfforddiant y flwyddyn gyfredol, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol ar faterion penodol fel ‘Gofalu am Blant a Phobl Ifanc sydd wedi cael eu Cam-drin yn Rhywiol yng Nghyd-destun y Teulu’ ac ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd swyddfa'r tîm maethu yn addas at y diben. Ceir cyfleusterau cegin a thoiled digonol. Mae'n lân ac yn ddi-rwystr ac mae systemau iechyd a diogelwch priodol ar waith mewn perthynas â chyfarpar trydanol a diogelwch tân. Caiff y larwm tân ei brofi'n wythnosol ac mae digon o swyddogion tân. Mae blwch cymorth cyntaf ar gael ac roedd yn cynnwys yr holl eitemau priodol ar adeg yr arolygiad. Mae nifer o'r staff yn yr adeilad wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf a bydd y nifer hwn yn cynyddu'n fuan.

Mae'r swyddfa'n cynnwys chwe desg sydd wedi'u neilltuo i staff y tîm maethu ac ystyrir bod hyn yn ddigon oherwydd y trefniant gweithio hybrid sydd ar waith ac am fod gan y staff eu ffonau symudol a'u gliniaduron gwaith eu hunain. Mae'r rheolwr a'r rheolwyr cynorthwyol yn gweithio yn y swyddfa.

Mae'r adeilad yn ddiogel ac ni all aelodau o'r cyhoedd na gofalwyr maeth fynd i mewn iddo. Mae cofnodlyfr ymwelwyr yn ardal y dderbynfa ac mae staff y dderbynfa yn sicrhau bod ymwelwyr yn darparu prawf adnabod. Rhoddir laniardau â bathodynnau dros dro i ymwelwyr hefyd er mwyn iddynt fynd i mewn i'r adeilad lle bo angen. Caiff cofnodion, sy'n electronig gan mwyaf, eu cadw'n ddiogel. Caiff unrhyw gopïau papur o ddogfennau eu cadw mewn cypyrddau dan glo.

Caiff cartrefi gofalwyr maeth eu hasesu pan gânt eu recriwtio er mwyn cadarnhau eu bod yn addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld â chartrefi'r gofalwyr maeth yn ystod ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd ac ymweliadau dirybudd, er mwyn monitro'r amgylchedd. Edrychir ar ystafelloedd gwely'r plant fel mater o drefn yn ystod ymweliadau. Ystyrir safonau iechyd a diogelwch yng nghartrefi'r gofalwyr maeth fel rhan o'r broses adolygu flynyddol ffurfiol, ynghyd ag asesiadau o anifeiliaid anwes sy'n ystyried risgiau. Mae'r plant yn cael eu cynnwys yn y broses o addurno a phersonoli eu hystafelloedd gwely.  Caiff addasrwydd yr amgylchedd y mae'r plant yn byw ynddo ei fonitro ymhellach yn ystod adolygiadau o'u cynllun gofal a chymorth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael ond mae angen ei datblygu a'i diweddaru. Ceir llyfryn i'r plant sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud yn benodol â maethu ac mae angen ei ddiweddaru, a dylid ystyried y fformat er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i'r plant iau sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae Datganiad o Ddiben y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth am nodau ac amcanion y gwasanaeth, rolau a chyfrifoldebau a safonau gofal. Mae angen diweddaru hwn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn unol â'r rheoliadau ac yn adlewyrchu newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth. Nid oes gan y gwasanaeth y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol i gefnogi'r rheolwyr a'r staff i gyflawni nodau'r gwasanaeth a chefnogi'r plant i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar gyfer recriwtio a chymeradwyo gofalwyr maeth, ond nid yw'r rhain wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol i sicrhau y gellir diwallu anghenion llesiant y plant. Roedd ansawdd yr asesiadau yn amrywio; roedd asesiadau'r gofalwyr maeth prif ffrwd y gwnaethom edrych arnynt o ansawdd da ac yn cynnwys yr holl wybodaeth, dadansoddiadau a gwiriadau gofynnol i sicrhau eu bod yn addas i ofalu am y plant. Ni chafodd ansawdd asesiadau'r gofalwyr cysylltiedig ei sicrhau yn ddigonol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r panel maethu, gan arwain at 'gymeradwyaeth dros dro' yn amodol ar dderbyn rhagor o wybodaeth a gwiriadau boddhaol. Mae hyn yn arwain at oedi o ran cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant ac yn gosod gofynion ychwanegol ar aelodau'r panel. Gwnaethom nodi hyn fel maes i'w wella yn ystod ein harolygiad diwethaf. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y ffaith y dylai'r asesiadau ar gyfer gofalwyr cysylltiedig gael eu cwblhau i'r un safon â rhai ar gyfer gofalwyr prif ffrwd, ond nid yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â hyn chwaith. Nid oedd asesiadau gofalwyr maeth na diweddariadau ar gyfer newidiadau sylweddol i gymeradwyaethau bob amser wedi'u cynnwys yn eu cofnodion electronig.

Mae'r panel maethu yn sicrhau bod aelodau'r panel yn craffu ar asesiadau er mwyn cadarnhau bod gofalwyr maeth yn ddiogel, yn addas ac yn gymwys i ymgymryd â'r rôl. Mae darpar ofalwyr maeth yn mynychu'r panel ac yn cael cadarnhad o'u statws cymeradwyaeth. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y panel yn ddigon manwl i ddangos ystyriaeth ofalus o faterion ac esbonio'r rhesymeg dros benderfyniadau. Roedd nifer o enghreifftiau o anghywirdebau, yn enwedig mewn perthynas â statysau cymeradwyaeth, ac mewn un achos, roedd gofalwyr maeth wedi bod yn gweithredu y tu allan i'w statws cymeradwyaeth am nifer o flynyddoedd. Ar y cyfan, nid oedd fawr ddim tystiolaeth o graffu annibynnol cadarn ar benderfyniadau'r panel. Mae Cadeirydd cymharol newydd y panel yn ddiwyd ac yn awyddus i ddatblygu'r panel ac ymgorffori dull mwy agored, amrywiol a seiliedig ar dystiolaeth. Mae swyddi gwag ar gael ar y panel ac mae proses yn mynd rhagddi i benodi cynghorydd i'r panel. Er bod cworwm wedi parhau ar y panel, mae hyn yn rhoi pwysau ar yr

aelodau presennol. Mae angen datblygu cyfleoedd i aelodau'r panel fynychu sesiynau hyfforddi.

Ceir tîm craidd sefydledig o staff sy'n brofiadol, yn gymwys, yn wybodus ac yn cefnogi swyddogaeth gyffredinol y tîm maethu mewn perthynas â'i rôl a'i gyfrifoldebau penodol. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau'r rheolwr a chylch gwaith y tîm, sydd hefyd yn cynnwys cefnogi gofalwyr plant sy'n destun Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, yn rhy eang i'w rheoli, yn enwedig yn absenoldeb hirdymor y rheolwr tîm cynorthwyol.

Mae ffeiliau recriwtio'r staff yn dangos bod prosesau cadarn ar waith i sicrhau addasrwydd y staff. Ar y cyfan, mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac mae arfarniadau blynyddol wedi cael eu cwblhau. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd sy'n cynnig fforwm i rannu gwybodaeth ac ystyried materion cyfoes. Dywedodd y staff eu bod yn rhan o dîm ymrwymedig a chlos a oedd yn cydweithio'n dda. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod y teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr a'r tîm uwch-reolwyr, sy'n hygyrch ac yn ymatebol.

Prin fu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd y gwasanaeth a'i gydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Mae'r prosesau a'r strwythurau ar gyfer adolygu, datblygu a gwella'r gwasanaeth yn gyfyngedig iawn. Nid oes adroddiadau ar ansawdd y gofal wedi cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol ers nifer o flynyddoedd. Ad-drefnwyd y tîm uwch-reolwyr yn yr adran Gwasanaethau Plant yn ddiweddar ac mae uwch-reolwr newydd sy'n gyfrifol am y gwasanaeth maethu wedi cael ei benodi, a fydd yn dechrau'n fuan. Yn absenoldeb uwch-reolwr cyfrifol, mae'r gwasanaeth maethu wedi cael ei oruchwylio'n uniongyrchol gan y Pennaeth Gwasanaeth, sy'n meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o faterion, cryfderau a gwendidau'r gwasanaeth ac sydd wedi datblygu cynllun i fynd i'r afael â diffygion. Mae darparwr yr awdurdod lleol hefyd wedi ymrwymo cyllid ychwanegol sylweddol i'r gwasanaeth maethu yn y dyfodol fel rhan o raglen Drawsnewid.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n gyfrifol yn yr awdurdod lleol gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd, a'u hunioni. Caiff y rhain eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 3 | Rhaid i ddarparwr gwasanaeth yr Awdurdod Lleol sicrhau bod trefniadau clir ar waith i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sefydlu, datblygu ac ymgorffori diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a bodloni gofynion y Rheoliadau. | Newydd |
| 5 (2) | Rhaid i ddatganiad o ddiben y gwasanaeth gael ei ddiweddaru'n barhaus a'i adolygu'n flynyddol o leiaf. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaid i'r wybodaeth yn y datganiad o ddiben fod yn gywir ac adlewyrchu gofynion y Rheoliad. | |
| 6 (1) a (2) | Rhaid i'r trefniadau ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth fod yn effeithiol a chynnwys systemau ar gyfer cynnal archwiliadau mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau gwasanaeth a'r Rheoliadau.<br><br>Rhaid i'r trefniadau gynnwys ceisio safbwyntiau'r rheini a nodir yn y Rheoliadau. | Newydd |
| 10 (1) a (2)<br><br>10 (3) | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth roi'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau ar waith.<br><br>Rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau adlewyrchu'r canllawiau cyfredol a chael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. | Newydd |
| 12(2) | Rhaid i'r canllaw ar y gwasanaeth maethu gael ei ddyddio a'i adolygu'n flynyddol. Rhaid iddo fod mewn arddull, iaith a fformat sy'n hygyrch i bob un o'r plant a chael ei ddarparu iddynt er mwyn eu helpu i ddeall y gwasanaeth a ddarperir. | Newydd |
| 37(1) | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gynnal cofnodion cywir er mwyn diogelu'r plant a rhedeg y gwasanaeth yn effeithiol. | Newydd |
| 39(1) | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth baratoi polisi cwynion mewn fformat hawdd ei ddeall sy'n cael ei hysbysebu'n dda ac sydd ar gael yn hawdd i'r plant, eu gofalwyr maeth, eu teuluoedd a'r staff. | Newydd |
| 46 (1) a (2) | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno adroddiadau chwarterol i ddarparwr yr awdurdod lleol ar ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau. | Newydd |
| 52 (1) a (2) | Rhaid cynnal adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir mor aml ag sydd ei angen, ond o leiaf bob | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | chwe mis. | |

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 5 | Nid yw'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol nac yn gywir. | Newydd |
| 6 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth. | Newydd |
| 10 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith. | Newydd |
| 12 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi canllaw ar y gwasanaeth ar waith sy'n gyfredol ac yn hygyrch. | Newydd |
| 39 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi polisi cwynion ar waith. | Newydd |
| 37 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi cynnal cofnodion cywir. | Newydd |
| 46 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sefydlu a chynnal trefniadau sicrhau ansawdd digonol. | Newydd |
| 52 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sefydlu a chynnal trefniadau sicrhau ansawdd digonol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/03/2024